Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltiad y Criw Mentrus â'r Cwricwlwm yng Nghymru

Bwriedir i'r gweithgareddau isod fod yn ganllaw i athrawon i gefnogi defnyddio cystadleuaeth y Criw Mentrus i ddatblygu sgiliau Llythrenendd a Rhifedd allweddol o'r FfCD

Sgiliau Cwricwlwm Allweddol	Gweithgareddau Llafaredd i'w hybu
• LlG1 – Gwrando'n Astud • LlS4 – Siarad â Chynulleidfa • LlC1 – Trafodaethau • LlC2 – Siarad gyda phwrpas i gwblhau tasg	• Ar ôl gwrando, mae'r disgyblion yn creu nodyn bras o fanylion y dasg mae'n rhaid iddyn nhw ei chwblhau h.y. dewis a dylunio prosiect • Wrth wrando, mae'r disgyblion yn creu rhestr pwyntiau bwled o wybodaeth allweddol i'w thrafod yn eu grŵp • Ar ôl gwrando, mae'r disgyblion yn treulio 30 eiliad ar "Ysgrifennu'n Gyflym" yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth â'u grŵp • Cyn siarad â chynulleidfa mae'r disgyblion yn ymarfer eu technegau taflu eu llais, gan ganolbwyntio ar anadlu â'r diaffram a safle'r llais o fewn y geg • Yn ystod trafodaethau grŵp, mae'r disgyblion yn defnyddio cardiau ysgogi i adeiladu ar syniadau pobl eraill a'u datblygu

Sgiliau FfLlRhC

LlG Llafaredd-Gwrando **LlS** Llafaredd-Siarad **LlC** Llafaredd-Cydweithredu a Thrafod **SD** Strategaethau Darllen **DD** Darllen a Deall
YY Ysgrifennu am Ystyr **RhRh** Rhesymu Rhifiadol **M** Mesur **D** Trin Data **CD** Cymhwysedd Digidol

Cysylltiadau â Phynciau Cornerstones CS CA2 Isaf CA2 Uchaf	Gweithgareddau Rhifedd i'w hybu
• Albwm Teuluol • Archfarchnad • Bwyd Byd-eang • Gweledigaethau Newydd • Stŵr Robotiaid • Dylunwyr Dillad Chwaraeon • Rhandir • Blits • Oriel • Dognau	• Rhesymu Rhifiadol • R17/18 Gweithio gydag arian • M5 Amser • D2/D3/D4 – Trin Data Dylai disgyblion allu casglu, cofnodi, cyflwyno a dadansoddi eu data gan ddefnyddio amrediad eang o graffiau a diagramau. Dylai'r rhain gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion lunio eu graffiau eu hun, gan ddewis y diagram a'r graddfeydd mwyaf priodol. Hefyd caiff disgyblion grwpio eu data lle bo'n briodol a gwneud cymariaethau rhwng setiau gwahanol o ddata ar wahân.
Sut olwg fyddai ar hyn wrth ei gynllunio?	**Sgiliau Darllen sy'n cael eu Datblygu gan y Criw Mentrus**
	• DD3 – Darllen a Deall – Adnabod Gwybodaeth • DD6 – Darllen a Deall – Darllen at ddibenion Mwynhad ac Ymchwil I ddeall testun yn llawn, rhaid i ddisgyblion allu Adalw ac Ailadrodd (DD2) yr wybodaeth yn gywir a rhaid iddynt allu Casglu (DD4) syniadau sydd heb eu datgan yn agored yn y testun. Yn y gystadleuaeth yma, bydd Creu Cysylltiadau rhwng testunau yn holl bwysig hefyd yn y cam ymchwilio a datblygu. Mae gallu Gwerthuso Cynnwys a dibynadwyedd testunau, yn arbennig testunau sydd ar-lein, yn sgil darllen ar radd uwch mae'r gystadleuaeth yn rhoi amrediad o gyfleoedd i'w ddatblygu.